



Tra bod pob ymdrech wedi ei wneud i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn gywir ar amser y cyhoeddiad, ni ellir derbyn unrhyw gyfrifoldeb am gamgymeriadau neu esgeulustod.

Whilst every effort has been made to ensure that all information is correct at the time of publication, no liability can be accepted for errors or omissions.

# Bae Cemaes SH375937

# Cemaes Bay SH375937

Mae'r llwybr yn agos at ymyl y clogwyn mewn mannau a dylid cymryd gofal

The path is near the cliff edge in places and care should be taken

## 1. Cemaes – Capel

Dechreuwch y daith gerdded tua'r Gogledd Ddwyrain o'r maes parcio. Cerddwch ar hyd y lôn nes cyrraedd cyffordd; trowch i'r dde a tua 30 metr ac i'r chwith dros gamfa garreg ar y llwybr troed. Rydym yn parhau ar hyd y llwybr hwn ar hyd waelod y dyffryn yn mynd heibio Cae Owen sy'n cynhyrchu gwin lleol o winwydd a blannwyd ar lethrau sy'n wynebu'r De. Parhewch drwy giât mochyn, dros gamfa yn mynd i ardd breifat, croeswch y lawnt a mynd i gae ar yr ochr arall. Croeswch y cae, drwy'r bwlch yn y wal garreg, ar draws bont ac i fyny ychydig o stepiau carreg dros y wal, ac i lôn wledig.

(Gellir gwneud y daith gerdded hon yn fyrrach drwy droi i'r chwith oddi ar y lôn ychydig cyn trac at eiddo a adnabyddir fel Llanlleiana a pharhau mewn cyfeiriad gwrthglocwedd i'r llwybr arfordirol.)

## 2. Capel – Graig Wen

Trowch i'r dde ar hyd y lôn yma am tua milltir, rydym yn pasio capel a Chae Adda ar yr ochr dde, cyn dod at ddau lwybr sydd 30 metr oddi wrth ei gilydd ar ochr chwith y lôn; rydym yn cymryd yr un gyntaf, yn pasio drwy giât mochyn yn gyfagos at giât fferm. Rydym yn mynd i gyfeiriad Gogledd Ddwyreiniol yn dilyn ymyl cae i Borth Wen, daw'r cildraeth i'r golwg, yn pasio drwy giât mochyn arall a dilyn o amgylch ac i lawr yr allt i gyffordd gyda'r Llwybr Arfordirol. Yma rydym yn cadw tua'r chwith gan fynd heibio'r staciau simnai'r hen waith brics ar y dde. O'r man hwn parhewch i fyny'r allt ar y llwybr arfordirol, gyda mast a thriongl mordwyaeth ar y pentir a elwir yn Torllwyn ar y dde, a hen gêr weindio ar y chwith. Mae creigiau ar y chwith, Craig Wen gyda phwynt Trig Arolwg Ordnans ar y top a gyda golygfeydd da tua'r de ar draws yr ynys.

## 3. Graig Wen – Eglwys Llanbadrig

Parhewch ar hyd y clogwyni cyn mynd i lawr ac esgyn yn serth i mewn ac allan o geunant Porth Cynfor neu Hells Mouth ac at dwr gwylio ar Bentir Llanlleiana. O'r fan yma rydym yn mynd i lawr stepiau eto i Porth Llanlleiana, cyn dringo'n serth i fyny stepiau i barhau ein taith gerdded ar hyd y clogwyni. Daw Gorsaf Ynni Niwclear Wylfa i'r golwg wrth i ni fynd am Eglwys Llanbadrig, gallwn fynd o amgylch y fynwent, yn dilyn y wal garreg i'r ffordd.

## 4. Eglwys Llanbadrig – Cemaes

Rydym nawr yn mynd i lawr y ffordd am bellter byr cyn troi i ffwrdd mewn pant a thrwy giât mochyn ar yr ochr dde, yn dilyn y llwybr arfordirol o amgylch y pentir gyda golygfeydd ar draws y bae i Gemaes ac at ddiwedd y daith gerdded.

## 1. Cemaes – Chapel

Start the walk in a North Easterly direction from the car park. Walk along the lane until it meets a junction; turn right for approx 30 metres and left over a stone stile on to the footpath. We continue on this path along the bottom of a valley passing Cae Owen which produces local wine from vines planted on the South facing slopes. Continue on through a kissing gate, over a stile entering a private garden, crossing the lawn and enter a field on the other side. Cross the field, through the gap in a stone wall, across a bridge and up some stone steps over the wall, and onto a country lane.

(This walk can be shortened by turning left off the lane just before a track to a property known as Llanlleiana and continuing in an anticlockwise direction onto the coastal path.)

## 2. Chapel – Graig Wen

Turning right along this lane for approximately one mile, we pass a chapel and Cae Adda on our right, shortly coming across two paths 30 metres apart on the left side of the lane; we take the first one, passing through a kissing gate adjacent to a farm gate. We head North Easterly following a field boundary to Porth Wen, the cove comes into view, passing through another kissing gate and following round and down hill to a junction with the Coastal Path. Here we keep left passing the chimney stacks of the old brick works on our right. From here continue up hill on the coastal path, with a mast and navigation triangle on the headland known as Torllwyn on our right, and an old winding gear on our left. The rocky outcrop to the left, Craig Wen has an Ordnance Survey Trig point on the top and gives good views to the South across the island.

## 3. Graig Wen – Llanbadrig Church

Continue along the cliffs before descending and ascending steeply to and from the gorge of Hells Mouth or Porth Cynfor and onto and old look out tower on Llanlleiana Head. From here we again drop down steps to Porth Llanlleiana, before climbing steeply up some steps to continue our walk along the cliffs. Wylfa Nuclear Power Station comes into view as we head for Llanbadrig Church; we pass round the church yard, following the stone wall onto the road.

## 4. Llanbadrig Church – Cemaes

We now head down the road for a short distance before turning off in a dip and through a kissing gate on our right hand side, following the coastal path around the headland with views across the bay to Cemaes and onto the finish of the walk.